# Arweiniad i Arolygwyr

## Beth rydym ni'n arolygu

Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)
o fis Medi 2022



estyn.llyw.cymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys


Cyflwyniad i 'Beth rydym ni'n ei arolygu' .................................................................... 1
Gwerthuso pob maes arolygu (MA)................................................................................ 2
Ynglŷn â'r ysgol neu'r bartneriaeth ................................................................................ 2
Crynodeb........................................................................................................................ 3
Argymhellion .................................................................................................................. 3
Beth sy'n digwydd nesaf.................................................................................................. 3
Sail dystiolaeth yr arolygiad............................................................................................. 4
Meysydd arolygu ............................................................................................................ 4
Maes arolygu 1: Dysgu.................................................................................................... 4
1.1 Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau yn gyffredinol 4
Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu ............................................................ 6
2.1 Lles ............................................................................................................................ 6
2.2 Agweddau at ddysgu .................................................................................................. 8
Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu ............................................................ 9
3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb cwricwlwm y rhaglen ............................ 9
3.2 Ansawdd yr addysgu a'r mentora.............................................................................. 12
Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad ............................................................ 15
4.1 Datblygiad personol a phroffesiynol, a darparu cymorth dysgu....................... 15
4.2 Diogelu..................................................................................................................... 18
Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth ......……………………..…………...19
5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr ............................................ 19
5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant............................................... 21
5.3 Dysgu proffesiynol .................................................................................................. 23

## Cyflwyniad i 'Beth rydym ni'n ei arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso'r pum maes mewn Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) o fis Medi 2022. Mae'n esbonio 'beth rydym ni'n ei arolygu'.

Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu, yn cynnwys yr enwebai.  Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r fframwaith arolygu.  Ceir llawlyfr ar wahân sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu, sef 'sut rydym ni'n arolygu'.

Mae'r pum maes arolygu wedi eu hamlinellu isod.

**Meysydd Arolygu**

**MA1 Dysgu**

- 1.1 Safonau a chynnydd yn gyffredinol

**MA2 Lles ac agweddau at ddysgu**

- 2.1 Lles
- 2.2 Agweddau at ddysgu

**MA3 Addysgu a phrofiadau dysgu**

- 3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
- 3.2 Ansawdd addysgu a mentora

**MA4 Gofal, cymorth ac arweiniad**

- 4.1 Datblygiad personol a phroffesiynol, a darparu cymorth dysgu
- 4.2 Diogelu

**MA5 Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
- 5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- 5.3 Dysgu proffesiynol

Ceir rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru

## Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu.  Fodd bynnag, byddant yn creu gwerthusiad cadarn a thrylwyr o ddarpariaeth y bartneriaeth, a'i heffaith ar ddysgu a lles athrawon dan hyfforddiant.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir mewn perthynas â'r gofynion adrodd ym mhob maes arolygu, fel y gwelir o'r enghreifftiau yn y llawlyfr hwn.  Fodd bynnag, gallai'r hyn rydym yn adrodd arno ym mhob maes arolygu fod yn wahanol, yn dibynnu ar arwyddocâd cymharol yr hyn yr ydym yn ei weld ym mhob partneriaeth.  Gallem ni adrodd 'trwy eithriad'.  Mae hyn yn golygu y gallem ni adrodd ar rai agweddau dim ond lle mae cryfderau neu wendidau penodol.

Pan fyddwn yn nodi unrhyw arfer ddiddorol neu arloesol y mae'n werth ei rhannu'n ehangach, byddwn yn gwahodd y bartneriaeth i gwblhau astudiaeth achos.  Rydym yn arddangos ystod o'r astudiaethau achos hyn ar ein gwefan.

Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol yn eu gwerthusiadau o un maes arolygu neu fwy, bydd angen ailarolygiad ar y bartneriaeth fel arfer, a bydd Estyn yn cysylltu â CGA o ran cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achredu.  Pan fydd arolygwyr yn gweld bod angen gwella agweddau pwysig, ond nad yw'r diffygion hyn yn ddigon difrifol i wneud ailarolygiad yn angenrheidiol, gallai fod angen ymgysylltu manylach ar y bartneriaeth.  Ceir rhagor o arweiniad ar natur gweithgarwch dilynol ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r bartneriaeth / rhaglenni

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn gryno ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am y bartneriaeth a'i rhaglen/ni.  Ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o'r ddarpariaeth.  Mae'r arolygydd cofnodol fel arfer yn cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r bartneriaeth yn ystod yr arolygiad, ac yn ystod gwiriad ffeithiol yr adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi.  Pan fydd anghytuno am gynnwys yr adran hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwneud y penderfyniad terfynol am beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth gryno am y canlynol:

- maint, natur a lleoliad y bartneriaeth sy'n arwain ac yn rheoli'r rhaglen/ni
- gwybodaeth am yr athrawon dan hyfforddiant ar y rhaglen/ni, fel cefndir ieithyddol, meintiau carfan, ac ati
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill, fel maint a natur y rhaglen/ni sy'n destun arolygiad
- mis / blwyddyn arolygiad blaenorol y rhaglen
- unrhyw newidiadau pwysig ers yr arolygiad diwethaf

Yn adran 'Ynglŷn â'r rhaglen' yr adroddiad, dylai arolygwyr cofnodol gynnwys y datganiad isod [os oes angen hyn mewn perthynas â statws achredu rhaglen]

'Rhoddwyd achrediad i'r rhaglen tan (dyddiad).'

Bydd adran y cyd-destun hefyd yn cynnwys dolen i www.ewc.wales, sef gwefan gyda gwybodaeth am bartneriaethau AGA ac achrediad.

## Crynodeb

Dylai'r adran hon o'r adroddiad:

- gynnwys crynodeb byr o'r prif ganfyddiadau (200-300 gair), yn amlinellu'r cryfderau allweddol ac unrhyw wendidau pwysig y mae angen eu gwella
- gwneud y cysylltiad rhwng deilliannau myfyrwyr, ansawdd y ddarpariaeth ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth
- bod yn gyson â'r canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad

## Argymhellion

Dylai argymhellion:

- gysylltu'n agos â phrif feysydd gwerthuso'r fframwaith arolygu, gyda'r argymhellion pwysicaf yn cael eu hadlewyrchu yn y crynodeb neu'r prif ganfyddiadau
- rhoi syniad clir a phenodol i'r bartneriaeth am y maes / meysydd y mae angen ei wella / eu gwella
- helpu'r bartneriaeth i ddeall yn glir beth ddylen nhw ei wneud er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol
- cael eu hysgrifennu yn nhrefn blaenoriaeth, nid yn nhrefn agweddau'r fframwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr adran 'beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r bartneriaeth ei wneud ar ôl yr arolygiad.  Ym mhob achos, bydd angen i arweinwyr ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Dylai enghreifftio unrhyw astudiaethau achos arfer ddiddorol neu arloesol yr ydym wedi gwahodd arweinwyr i'w rhannu.

Bydd yr adran hon yn esbonio a oes angen gweithgarwch dilynol ar y bartneriaeth ar unrhyw lefel, a gwneud yn glir p'un a oes angen ailarolygiad.  Bydd y crynodeb yn rhoi esboniad byr o'r rhesymau dros weithgarwch dilynol.

## Sail dystiolaeth yr arolygiad

Mae arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr bod eu canfyddiadau yn ddilys, yn gywir a dibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd ganddynt, yn ogystal ag ystod y gweithgareddau a wnaethant yn ystod eu hymweliad.

## Meysydd arolygu

Mae'r adran ganlynol yn esbonio beth mae pob maes arolygu yn ymdrin ag ef, a beth mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un ohonynt.

Mae'r meysydd arolygu wedi eu rhifo yn 1 – 5, ond maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd. Ym mhob maes arolygu, ni fydd yr adroddiad bob amser yn ymdrin â'r agweddau yn y drefn y maent yn ymddangos yn y llawlyfr hwn. Er enghraifft, ym Maes Arolygu 3 – Addysgu a phrofiadau dysgu, gallem ysgrifennu am addysgu cyn y cwricwlwm os yw hyn yn gwneud yr adroddiad yn gliriach, neu gallent gyfuno elfennau o addysgu a'r cwricwlwm i esbonio eu canfyddiadau, lle bo'n briodol.

Mae arweiniad atodol ar arolygu agweddau amrywiol ar waith ysgolion ar wefan Estyn, sef: https://www.estyn.llyw.cymru/y-broses-arolygu/arweiniad-arolygu

## Maes arolygu 1: Dysgu

### 1.1 Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau yn gyffredinol

Dylai arolygwyr werthuso p'un a yw athrawon dan hyfforddiant sydd ar fin cymhwyso yn bodloni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys (SAC), ac felly'n barod i ysgwyddo'r dyletswyddau fel athrawon newydd gymhwyso. Dylai arolygwyr ystyried cynnydd athrawon dan hyfforddiant, yn enwedig eu cynnydd o'r adeg y dechreuont wrth iddynt symud trwy'r rhaglen.

Dylai arolygwyr seilio eu gwerthusiadau o gyflawniad a chynnydd athrawon dan hyfforddiant ar ganlyniadau arsylwadau o'u haddysgu, trafodaethau ag athrawon dan hyfforddiant a chraffu ar eu gwaith, yn cynnwys eu cynlluniau a'u haseiniadau. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn galw dysgu blaenorol i gof, ac yn myfyrio arno, pa mor dda y maent yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, a pha mor dda y maent yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd.

Dylai arolygwyr ystyried gwybodaeth berthnasol am berfformiad, er enghraifft gan CGA, ynghyd â data a gasglwyd gan y bartneriaeth, fel dadansoddi cynnydd myfyrwyr, neu ddata cyrchfannau. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae myfyrwyr yn perfformio yn gyffredinol, a'r tueddiadau cyffredinol dros gyfnod, mewn perthynas â meincnodau mewnol ac allanol, yn cynnwys cymariaethau cenedlaethol.

Dylai arolygwyr edrych ar ddata am berfformiad sy'n cwmpasu cyfnod amser, fel arfer dros o leiaf dair blynedd, i nodi tueddiadau mewn perfformiad.  Dylent ystyried unrhyw ddata am berfformiad yn sgil eu tystiolaeth eu hunain o arsylwadau o addysgu myfyrwyr, craffu ar gynlluniau ac aseiniadau myfyrwyr, a thrafodaethau ag athrawon dan hyfforddiant.

Bydd arolygwyr yn nodi myfyrwyr i arsylwi'r addysgu, a byddant yn samplu aseiniadau myfyrwyr.  I sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cynllunio'n brydlon, dylai partneriaethau AGA ddarparu rhestrau cynhwysfawr o fyfyrwyr a'u graddau ar gyfer aseiniadau, a phrofiad ysgol adeg yr hysbysiad ac yn ystod yr arolygiad, os yw'n berthnasol.

Dylai arolygwyr werthuso cynnydd grwpiau penodol o athrawon dan hyfforddiant, yn cynnwys:

- athrawon dan hyfforddiant o grwpiau ethnig lleiafrifol
- athrawon dan hyfforddiant sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd
- myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig
- athrawon dan hyfforddiant sy'n astudio'r rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r rhai sy'n hyfforddi trwy gyfrwng y Saesneg
- athrawon dan hyfforddiant sy'n dysgu Cymraeg nad oes ganddynt ryw lawer o brofiad o'r iaith Gymraeg, os o gwbl

Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw grwpiau penodol o athrawon dan hyfforddiant yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent mewn perthynas â'u mannau cychwyn a'u gallu.  Dylent werthuso i ba raddau y mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ennill SAC ac addysgu'n llwyddiannus.

Dylai arolygwyr farnu safonau mewn medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o arsylwadau o fyfyrwyr yn addysgu, arsylwadau o sesiynau dysgu yn y brifysgol ac yn yr ysgol, teithiau dysgu, craffu ar ffeiliau cynllunio myfyrwyr (ar bapur neu'n ddigidol, fel y bo'n briodol) ac aseiniadau, a thrafodaethau gyda myfyrwyr.

Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar safonau medrau llythrennedd, rhifedd a digidol personol athrawon dan hyfforddiant, a pha mor dda y maent yn cymhwyso'r rhain yn eu gwaith cwrs ac yn eu haddysgu.  Dylent edrych ar gynnydd athrawon dan hyfforddiant y nodwyd bod ganddynt fedrau cymharol wan, neu'r rhai sydd â medrau mwy datblygedig.  Hefyd, byddant yn ystyried pa mor dda y mae myfyrwyr yn cynllunio ar gyfer llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion, ac yn eu cefnogi.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn defnyddio'r hyn maent wedi ei ddysgu o ddarllen ac ymchwil, yn cynnwys eu hymchwil eu hunain i herio, llywio a ffurfio eu harferion ystafell ddosbarth.  Dylai craffu ar gynllunio, addysgu a myfyrdodau myfyrwyr yn yr ysgol ac yn eu haseiniadau ddarparu tystiolaeth o ddealltwriaeth myfyrwyr o'r ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu'n effeithiol ar wahanol adegau yn eu datblygiad.  Hefyd, dylai'r ffynonellau tystiolaeth hyn ddangos pa mor greadigol, hyblyg ac arloesol yw myfyrwyr yn eu meddwl a'u dulliau addysgu.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae myfyrwyr yn datblygu eu medrau

dadansoddi beirniadol, myfyrio beirniadol, creadigrwydd a datrys problemau.  Dylent ystyried sut mae myfyrwyr yn bwriadu datblygu'r 'medrau ehangach' hyn yn eu disgyblion, a sut maent yn eu hannog i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn cynnwys dysgu a gwydnwch.

Bydd arolygwyr yn barnu'r cynnydd y mae athrawon dan hyfforddiant yn ei wneud o ran datblygu eu medrau Cymraeg, yn briodol i'w cyfnod datblygu a chyfrwng dysgu.  Hefyd, byddant yn ystyried pa mor dda y mae myfyrwyr yn cefnogi datblygiad disgyblion o ran eu medrau Cymraeg.

*Wrth werthuso'r cynnydd a wna myfyrwyr ar raglenni AGA cynradd, dylai arolygwyr farnu eu medrau o ran datblygu gallu disgyblion i siarad ieithoedd rhyngwladol, yn ogystal â'r Gymraeg.*

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae myfyrwyr yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pynciau / meysydd dysgu a phrofiad y maent yn eu hastudio i'w haddysgu, a'r addysgeg berthnasol o fewn pynciau, ac ar eu traws, meysydd dysgu a themâu trawsgwricwlaidd.  Dylent ystyried pa mor dda y mae myfyrwyr yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon wrth gynllunio eu gwersi, yn eu dulliau addysgu ac wrth asesu cynnydd disgyblion.

Dylai arolygwyr farnu gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr o ofynion y cwricwlwm yng Nghymru ar gyfer y sectorau oedran, pynciau / meysydd dysgu a phrofiad y maent yn eu hastudio i'w haddysgu.  Dylent werthuso i ba raddau y mae myfyrwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio, addysgu ac asesu ar gyfer cyflawni'r pedwar diben, a llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel medrau trawsgwricwlaidd.  Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae myfyrwyr yn deall egwyddorion dylunio'r cwricwlwm.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae myfyrwyr yn deall sut y defnyddir asesu at ystod o ddibenion.  Dylent ystyried i ba raddau y mae myfyrwyr yn defnyddio gwybodaeth am asesu i gynllunio ar gyfer dilyniant disgyblion.  Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae myfyrwyr yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu, a pha mor dda y maent yn deall sut i ddewis y dulliau mwyaf effeithiol i gyrraedd eu nodau dysgu bwriadedig ar gyfer disgyblion.

## Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

### 2.1 Lles

Dylai arolygwyr archwilio ystod eang o dystiolaeth wrth farnu safonau lles myfyrwyr.  Bydd trafodaethau ag athrawon dan hyfforddiant yn darparu ffynhonnell dystiolaeth bwysig.  Hefyd, dylai arolygwyr graffu ar gynllunio, gwerthusiadau, cofnodion myfyriol ac aseiniadau myfyrwyr.  Dylent ystyried pa mor dda y mae myfyrwyr yn defnyddio a myfyrio ar y cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan y bartneriaeth i wella eu lles.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn rheoli eu lles eu hunain.  Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn deall yr egwyddorion, ac yn defnyddio strategaethau llwyddiannus, i sicrhau cydbwysedd

iach rhwng gwaith a bywyd, er enghraifft deall sut i wneud dewisiadau iach am eu diet, gweithgarwch corfforol a'u lles emosiynol, fel sut i adnabod sbardunau neu arwyddion o orbryder neu straen, a sut i reoli pwysau eu baich gwaith fel eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau addysgu yn effeithiol, bodloni terfynau amser asesu a chael amser o hyd ar gyfer gorffwys ac ymlacio.  Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn goresgyn rhwystrau rhag dysgu, er enghraifft trwy ddefnyddio systemau bugeiliol a systemau cymorth y brifysgol.

Dylai arolygwyr farnu p'un a yw athrawon dan hyfforddiant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn y brifysgol, eu bod yn teimlo'n rhydd oddi wrth gamdriniaeth gorfforol a geiriol a'u bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg.  Dylent ystyried i ba raddau y mae myfyrwyr yn deall sut mae eu hymddygiad a'u gallu eu hunain i osod ffiniau yn effeithio ar y modd y mae disgyblion yn eu dirnad, ac yn uniaethu â nhw.  Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y dylai myfyrwyr gynnal gweithdrefnau ysgol a gweithio fel rhan o dîm staff i greu amgylchedd ysgol diogel (e.e. deall sut i ymdrin yn briodol ac yn ddiogel â disgyblion sy'n gallu bod yn bersonol heriol ar adegau; sicrhau ffiniau diogel a chadarn gyda disgyblion wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd).

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae athrawon dan hyfforddiant yn cael dweud eu dweud am beth maent yn ei ddysgu, a sut, fel unigolion, fel grwpiau ac fel carfanau.  Dylent ystyried y graddau y maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn cyfrannu at y bartneriaeth, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn pwyllgorau gwneud penderfyniadau fel cynrychiolwyr myfyrwyr.  Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae athrawon dan hyfforddiant yn ymateb i systemau'r bartneriaeth i'w cynnwys mewn datblygu, gwerthuso a gwella'r rhaglen, er enghraifft trwy gwblhau gwerthusiadau o fodiwlau a phrofiad ysgol.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw athrawon dan hyfforddiant yn datblygu gwerthoedd a thueddiadau, sy'n hyrwyddo llais y disgybl, cynaliadwyedd a herio annhegwch (e.e. hiliol, cymdeithasol, rhywedd, anabledd) yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r rhwystrau posibl rhag dysgu (h.y. gwybyddol, cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol, economaidd) a'r cyfraniad y gallant ei wneud at oresgyn y rhwystrau hynny, trwy addysgu effeithiol a chydwybod broffesiynol (e.e. ymwybyddiaeth o ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'i oblygiadau ar gyfer hawliau disgyblion).

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn deall pwysigrwydd lles disgyblion ar gyfer dysgu effeithiol, p'un a ydynt wedi archwilio'r modelau mwyaf effeithiol ar gyfer gwella lles disgyblion, ac yn gwybod sut i roi strategaethau a dulliau priodol ar waith i gynorthwyo disgyblion yn ystod eu profiadau ysgol.  Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn deall y dylai ysgolion hyrwyddo a chefnogi diwylliant o ddiogelwch a lles, p'un a yw hynny ar y safle, oddi ar y safle neu ar-lein.  Dylent farnu p'un a yw athrawon dan hyfforddiant yn deall gweithdrefnau diogelu (yn cynnwys amddiffyn plant) fel eu bod yn gweithredu'n briodol, yn effeithiol ac yn ddiogel os bydd disgybl yn gwneud datgeliad iddynt.

Dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu dealltwriaeth o'u medrau arwain yn yr ysgol, er enghraifft trwy gydweithio ag ymarferwyr eraill i arwain agweddau ar ddysgu.  Dylent ystyried pa mor dda y mae myfyrwyr yn deall materion ysgol gyfan ac yn barod i gymryd rhan lawn ym mywyd a

gwaith ysgol.  Hefyd, dylai arolygwyr ystyried dealltwriaeth myfyrwyr o'u cyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol.

Dylai arolygwyr ystyried yr atebion i'r holiaduron cyn-arolygiad gan athrawon dan hyfforddiant, staff partneriaeth ac arweinwyr, mewn perthynas â lles athrawon dan hyfforddiant, yn ogystal â chanlyniadau arolygon allanol, fel Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, a datblygu cwestiynau priodol sy'n dod i'r amlwg, lle bo'n briodol.  Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth o arsylwadau o athrawon dan hyfforddiant yn rhyngweithio mewn dosbarthiadau ac yn ystod profiad ysgol, gwerthusiadau ysgrifenedig gan eu mentoriaid a'u tiwtoriaid, yn ogystal â thystiolaeth o drafodaethau ag unigolion a grwpiau.

## 2.2  Agweddau at ddysgu

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu'r agweddau a'r ymddygiad personol a phroffesiynol allweddol a fydd yn eu helpu i ddysgu trwy gydol eu gyrfaoedd a'u bywydau.  Dylent werthuso i ba raddau y mae athrawon dan hyfforddiant yn arfer cyfrifoldeb ac atebolrwydd proffesiynol i ddangos eu bod yn barod i ymgymryd â swydd o ymddiriedaeth mewn perthynas â disgyblion a'r gymuned ehangach.  Hefyd, dylai arolygwyr ystyried y ffyrdd y mae athrawon dan hyfforddiant yn gweld eu hunain fel 'gweithredwyr newid' mewn addysg a chymdeithas yn gyffredinol.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu perthnasoedd proffesiynol o ansawdd uchel yn y brifysgol ac yn yr ysgol gyda disgyblion, cydweithwyr a rhieni / gofalwyr, wedi eu seilio ar barch, tegwch ac ymrwymiad i gydraddoldeb.  Dylent werthuso pa mor dda y mae myfyrwyr yn cydweithio â'u cyfoedion, mentoriaid, tiwtoriaid ac asiantaethau partner er budd disgyblion.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae athrawon dan hyfforddiant yn dangos ymrwymiad proffesiynol i geisio, derbyn a gweithredu yn unol â chyngor a chymorth adeiladol (er enghraifft trwy arsylwi ei gilydd yn addysgu, addysgu mewn tîm, cynllunio gwersi ar y cyd, myfyrio ar eu harfer eu hunain, a'i gwerthuso, adolygu eu cynnydd yn unol â thargedau personol / y safonau ar gyfer SAC).

Dylai arolygwyr werthuso gallu ac ymrwymiad athrawon dan hyfforddiant i ddadansoddi eu harfer eu hunain (h.y. pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn ymgysylltu â myfyrio mewn grŵp a hunanfyfyrio, ac yn defnyddio hyn yn bwrpasol i wneud cynnydd yn eu dysgu).  Dylai arolygwyr graffu ar gofnodion myfyrwyr yn eu myfyrdodau beirniadol a'u 'damcaniaethau arfer' sy'n dod i'r amlwg eu hunain, fel y gwelir yn eu ffeiliau cynllunio a'u haseiniadau, ac ystyried pa mor dda y mae myfyrwyr yn ymgymryd â deialog broffesiynol gyda'u tiwtoriaid, mentoriaid a'u cyfoedion.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn ymgysylltu â diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio, ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau ymchwil, yn cynnwys dealltwriaeth o ymddygiadau moesegol mewn cyd-destunau addysgol.  Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu'r medrau i ymgysylltu â datblygu'r cwricwlwm a chynllunio gwelliant, rhannu eu dysgu proffesiynol gyda chydweithwyr i gefnogi deilliannau gwell ar gyfer disgyblion, a

datblygu'r addysgeg a'r arferion i ddiwallu anghenion amrywiol disgyblion yn yr unfed ganrif ar hugain.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn cymryd rhan yn eu dysgu, ac yn ei fwynhau, yn yr ysgol ac yn y brifysgol.  Dylent ystyried i ba raddau y mae myfyrwyr yn ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol yn y brifysgol, a pha mor dda y maent yn cymryd rhan ym mywyd yr ysgol gyfan.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn arfer hunanddisgyblaeth i gynnal canolbwyntio ac osgoi pethau sy'n tynnu sylw wrth ymgymryd â'u hastudiaethau, pa mor dda y maent yn dyfalbarhau, yn aros yn bwrpasol pan fyddant yn wynebu anawsterau neu'n ceisio atebion eraill pan fydd eu hymgais gyntaf i ddatrys problem neu her yn aflwyddiannus.  Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu eu cynllunio a'u trefniadaeth a'u heffeithiolrwydd personol.

Dylai arolygwyr werthuso presenoldeb a phrydlondeb athrawon dan hyfforddiant  (yn rhithiol ac wyneb yn wyneb) yn yr ysgol ac yn y brifysgol.

Wrth werthuso cyfranogiad a mwynhad mewn dysgu, dylai arolygwyr ystyried y dystiolaeth ddogfennol fel cofnodion presenoldeb, craffu ar waith athrawon dan hyfforddiant, cyfweliadau ag athrawon dan hyfforddiant, arsylwi eu hymgysylltiad a'u hymddygiad mewn dosbarthiadau, a gweithgareddau proffesiynol eraill.

## Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

### 3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb cwricwlwm y rhaglen

Wrth werthuso profiadau dysgu, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r rhaglen yn bodloni'r *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* (Cylchlythyr rhif: 001/2018 Llywodraeth Cymru).  Byddant yn barnu pa mor dda y mae'r rhaglen wedi ei chynllunio i alluogi myfyrwyr i fodloni'r safonau ar gyfer SAC.  Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y caiff rhaglenni eu hategu gan fframwaith cysyniadol eglur wedi ei lywio gan werthoedd, egwyddorion ac ymchwil.  Byddant yn ystyried y cydlyniad rhwng agweddau ar y rhaglen yn y brifysgol ac yn yr ysgol, a'u hintegreiddio, a'r graddau y mae rhaglenni yn darparu profiadau dysgu sy'n ymarferol drylwyr ac yn heriol yn ddeallusol, fel ei gilydd. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y caiff holl elfennau'r rhaglen eu cynllunio a'u hintegreiddio i sicrhau bod pob un o'r myfyrwyr yn datblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'w paratoi ar gyfer eu gyrfa addysgu.

Dylai arolygwyr werthuso cwricwlwm y bartneriaeth mewn ffordd hyblyg a chadarnhaol.  Dylent ystyried a yw'r rhaglen yn bwrw ymlaen â datblygiadau cwricwlaidd tra ystyriol sydd o fudd i fyfyrwyr.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r rhaglen yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth am ddisgyblaethau a phynciau, yn ogystal â sut mae disgyblion yn dysgu orau yn y disgyblaethau a'r pynciau hynny.  Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae hyn yn cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu a gwella eu haddysgu wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r rhaglen.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r rhaglen yn paratoi athrawon dan hyfforddiant i addysgu ar draws o leiaf ddwy ystod oedran y cwricwlwm yn olynol.  Dylent ystyried pa mor dda y mae cwricwlwm y rhaglen yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol athrawon dan hyfforddiant wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r rhaglen.  Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r rhaglen yn darparu ystod eang o brofiadau ar gyfer athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn ddigon manwl ac eang ar draws ystod ofynnol y pynciau a'r meysydd dysgu a phrofiad.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y caiff profiad ysgol ei gynllunio i alluogi myfyrwyr i wneud cynnydd mewn datblygu eu medrau addysgu, yn unol â'r safonau ar gyfer SAC a'r Meini Prawf ar gyfer achredu[1].

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae profiadau dysgu ar draws y rhaglen yn symbylu ac yn herio ystod lawn yr athrawon dan hyfforddiant fel eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl.  Dylent ystyried p'un a yw'r cwricwlwm yn rhoi llwybrau dysgu unigol i athrawon dan hyfforddiant gydag ystod eang a chytbwys o brofiadau (e.e. ar raglenni cynradd, y cyfle i arbenigo mewn sector oedran o ddewis neu faes dysgu a phrofiad).  Hefyd, dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn rhoi cyfle i athrawon dan hyfforddiant gael cymwysterau ychwanegol sy'n berthnasol i'w gwaith fel athrawon (e.e. cymhwyster proffesiynol sy'n berthnasol i weithio mewn ysgol enwadol).

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r rhaglen yn helpu athrawon dan hyfforddiant i weld heriau, problemau a chamgymeriadau fel cyfleoedd ar gyfer dysgu, y graddau y mae'n annog athrawon dan hyfforddiant i gael meddyliau agored a'u bod eisiau arbrofi a bod yn greadigol yn eu harfer sy'n dod i'r amlwg, a ph'un a yw'n darparu trefniadau effeithiol i gefnogi hyn (er enghraifft, ymholi ar y cyd lle mae athrawon dan hyfforddiant yn ymchwilio i 'broblem', er enghraifft rheolaeth a threfniadaeth ystafell ddosbarth, cyfnewid syniadau, trafod materion, arbrofi â gwahanol dechnegau neu ddulliau, a rhannu eu profiadau).

Dylai arolygwyr ystyried cynllunio mentoriaid a thiwtoriaid, cynlluniau gweithredu modiwlau, gwaith athrawon dan hyfforddiant ac arsylwi dysgu athrawon dan hyfforddiant mewn sesiynau yn y brifysgol ac yn yr ysgol, wrth lunio barn ar ansawdd y profiadau dysgu a ddarperir.  Dylent ystyried pa mor dda y mae'r profiadau dysgu

[1] O ran safonau rhaglenni ôl-raddedig blwyddyn, dylai profiad ysgol gynnwys tua dwy ran o dair o'r rhaglen; ar raglenni tair blynedd, dylai astudiaethau pwnc a phrofiad ysgol gynnwys tua thraean yr un o raglenni. Dyma ofynion y profiad ysgol: 32 wythnos ar gyfer yr holl raglenni cynradd pedair blynedd i israddedigion; 24 wythnos ar gyfer yr holl raglenni dwy flynedd a thair blynedd i israddedigion; 24 wythnos ar gyfer yr holl raglenni cynradd ac uwchradd i ôl-raddedigion. Rhaid darparu o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddi wedi'i arwain gan y brifysgol / yr ysgol ym mhob blwyddyn academaidd ar gyfer yr holl athrawon dan hyfforddiant. Dylai pob partneriaeth sicrhau bod pob myfyriwr yn cael profiad mewn o leiaf ddwy ysgol gyferbyniol.

yn diwallu anghenion yr holl athrawon dan hyfforddiant, ni waeth pa fodelau cyflwyno penodol y maent yn eu dewis i drefnu a chyflwyno'r cwricwlwm.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae cwricwlwm y rhaglen yn darparu ar gyfer grwpiau penodol o athrawon dan hyfforddiant, yn enwedig y rhai â medrau a dealltwriaeth ddatblygedig, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n bwriadu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae staff y bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion dysgu athrawon unigol dan hyfforddiant wrth gynllunio modiwlau ac wrth gyflwyno sesiynau unigol a dilyniannau o sesiynau a addysgir.  Dylai arolygwyr nodi ble mae gan athrawon dan hyfforddiant gynlluniau cymorth unigol, ac ystyried pa mor dda y mae staff yn gwneud nodyn o'r rhain ac yn darparu addasiadau rhesymol i helpu athrawon dan hyfforddiant i fodloni eu targedau personol.

Mae safonau da o lythrennedd (yn Gymraeg a/neu Saesneg), rhifedd, medrau digidol, medrau meddwl a'r medrau ehangach, sef cyfathrebu, gweithio'n annibynnol ac mewn tîm, creadigrwydd a meddwl yn feirniadol yn fedrau ategol pwysig iawn ar gyfer athrawon effeithiol.  Hefyd, mae gwybodaeth bynciol yn bwysig iawn os yw myfyrwyr yn mynd i allu datblygu dysgu disgyblion yn effeithiol.  Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae'r bartneriaeth yn ystyried anghenion myfyrwyr yn y meysydd hyn, yn eu harchwilio'n rheolaidd ac yn mynd i'r afael â nhw.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r rhaglen wedi ystyried arweiniad cenedlaethol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wrth gynllunio profiadau dysgu athrawon dan hyfforddiant.

Dylai arolygwyr farnu p'un a yw ehangder profiadau athrawon dan hyfforddiant ar draws eu rhaglen astudio hefyd yn darparu cyfleoedd pwrpasol a dilyniadol i athrawon dan hyfforddiant ymarfer a datblygu eu medrau eu hunain mewn llythrennedd (Cymraeg / Saesneg), rhifedd a chymhwysedd digidol.  Dylent edrych ar y dystiolaeth yng ngwaith myfyrwyr a thrwy arsylwadau i ystyried i ba raddau y mae'r rhaglen yn cyflwyno cyfleoedd pwrpasol i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu medrau personol, yn ogystal â'u gallu i gynllunio ar gyfer medrau disgyblion, a'u datblygu.

Dylai arolygwyr ystyried graddau ac ansawdd darpariaeth y rhaglen ar gyfer datblygu medrau Cymraeg personol athrawon dan hyfforddiant mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol, i sicrhau eu bod yn cyrraedd y lefel gymhwysedd gytûn cyn cyflawni SAC.  Dylent ystyried pa mor dda y mae rhaglenni yn adeiladu ar fedrau lefel mynediad athrawon dan hyfforddiant yn y Gymraeg i sicrhau bod pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn cael cyfle i ddatblygu eu medrau Cymraeg.  Dylent ystyried pa mor dda y mae'r rhaglen yn addysgu athrawon dan hyfforddiant am fanteision dysgu Cymraeg, a bod yn amlieithog.

Dylai arolygwyr ystyried graddau ac ansawdd darpariaeth y rhaglen ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o ddysgu iaith, a sut mae disgyblion yn caffael a datblygu medrau Cymraeg, fel iaith gyntaf neu iaith ychwanegol.  Wrth werthuso rhaglenni cynradd, dylai arolygwyr edrych ar ba mor dda y mae'r rhaglen yn datblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth myfyrwyr o ddysgu mewn ieithoedd eraill.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r rhaglen yn datblygu athrawon dan hyfforddiant i addysgu Cymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig.  Dylai hyn gynnwys pa mor dda y mae'r rhaglen yn datblygu medrau addysgegol athrawon dan hyfforddiant i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg (yn cynnwys datblygu arbenigeddau pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg).

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r rhaglen yn datblygu dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o'r Cwricwlwm i Gymru a phroses dylunio a datblygu'r cwricwlwm.  Dylent ystyried a yw'r rhaglen yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddeall egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a sut byddant yn datblygu eu dulliau addysgu i gefnogi'r egwyddorion hyn.  Dylai arolygwyr ystyried a yw'r rhaglen yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru a'r byd ehangach, yn cynnwys sut i gynllunio ar gyfer addysgu disgyblion am hanes a phrofiadau cymunedau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol (LGBT+).

Wrth ystyried dulliau o ddatblygu dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r rhaglen yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant i ddeall camsyniadau mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, ac yn eu galluogi i ddeall sut bydd gan ysgol eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu a fydd yn ategu eu cynllunio ar gyfer y cwricwlwm.

## 3.2 Ansawdd yr addysgu a'r mentora

Nid oes rhaid i werthuso addysgu a mentora fod yn adran gyntaf y maes arolygu o reidrwydd, oherwydd gallai arolygwyr ddechrau ag ansawdd profiadau dysgu os bydd hyn yn gwneud eu canfyddiadau'n gliriach.

Dylai arolygwyr farnu ansawdd a manylder gwybodaeth tiwtoriaid a mentoriaid am bwnc a sector, a'u dealltwriaeth o addysgeg AGA.

Wrth werthuso addysgu, dylai arolygwyr nodi nad oes templed penodedig y dylai partneriaethau ei ddilyn, a gallai partneriaethau ddefnyddio ystod o wahanol ddulliau addysgu a mentora dros gyfnod.  Yr ystyriaethau allweddol yw pa mor dda y caiff yr addysgu a'r mentora eu llywio gan ymchwil, ac effaith yr addysgu a'r mentora ar gynnydd myfyrwyr, hynny yw, pa mor effeithiol y mae'r addysgu a'r mentora yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon i lefel briodol uchel i ddechrau yn y proffesiwn addysgu wrth iddynt symud trwy'r rhaglen.  Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dulliau addysgu a mentora yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ymgysylltu â theori ac arfer mewn AGA, a'r graddau y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn creu'r cysylltiadau rhwng theori ac arfer yn eu haddysgu.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae gan staff addysgu partneriaeth ddisgwyliadau uchel o'r holl athrawon dan hyfforddiant, ac yn dangos arfer broffesiynol o ansawdd uchel, y gall athrawon dan hyfforddiant ei hefelychu yn eu haddysgu eu hunain.

Dylai arolygwyr ystyried ansawdd prosesau cynllunio tiwtoriaid a mentoriaid.  Dylent werthuso'r graddau y mae gan diwtoriaid a mentoriaid amcanion clir ar gyfer dysgu

athrawon dan hyfforddiant, sy'n adeiladu'n gynyddol drwy eu cyfnod astudio. Dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau effeithiol, i ddatblygu gwybodaeth bynciol ac addysgegol myfyrwyr. Dylai arolygwyr ystyried y graddau y caiff y dulliau hyn eu llywio gan ymchwil, a pha mor dda y maent yn herio'r holl athrawon dan hyfforddiant i gyflawni cystal ag y gallant. Dylent ystyried y graddau y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn gwneud eu hamgylcheddau dysgu yn lleoedd ysgogol a difyr ble gall pob grŵp o athrawon dan hyfforddiant, yn cynnwys y rhai mwyaf abl, ddysgu'n gynhyrchiol a dod yn athrawon newydd gymhwyso hyderus, medrus ac ymroddgar.

Dylai arolygwyr ystyried eglurder ac ansawdd cyfarwyddiadau, arddangosiadau, esboniadau a chwestiynau tiwtoriaid a mentoriaid, a pha mor dda y mae'r athrawon dan hyfforddiant yn datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau o ganlyniad. Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn herio myfyrwyr i fyfyrio'n feirniadol. Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn rhyngweithio ag athrawon dan hyfforddiant, p'un a ydynt yn gwybod pryd i ymyrryd, pryd i brocio a phryd i ddal yn ôl i gefnogi a dyfnhau dysgu athrawon dan hyfforddiant yn y ffordd orau.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae staff addysgu yn helpu athrawon dan hyfforddiant i feithrin eu hunaniaeth, cymeriad, tueddiadau a'u gwerthoedd eu hunain fel pobl broffesiynol. Dylent farnu pa mor dda y mae staff addysgu yn trin pob athro dan hyfforddiant yn gyfartal, a gyda pharch priodol. Dylent ystyried pa mor llwyddiannus y mae staff addysgu yn defnyddio aelodau staff eraill i gefnogi dysgu athrawon dan hyfforddiant, er enghraifft technegwyr labordy, athrawon eraill, a chynorthwywyr cymorth dysgu.

Mae'r ffocws ar asesu yn y maes arolygu hwn yn bennaf ar ba mor effeithiol y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn defnyddio ystod o ddulliau, yn cynnwys arsylwi, trafod, cyflwyniadau, aseiniadau ysgrifenedig a phrosiectau ymchwil weithredu i asesu cyflawniadau a chynnydd athrawon dan hyfforddiant.

Dylai arolygwyr werthuso ystod a phriodoldeb y dulliau mae'r bartneriaeth yn eu defnyddio i asesu twf personol a phroffesiynol athrawon dan hyfforddiant trwy eu rhaglen AGA. Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn deall dilyniant mewn AGA, ac yn cydnabod bod angen gwahanol ddulliau ar gyfer myfyrwyr â gwahanol anghenion, medrau a phriodoleddau, ac ar wahanol gamau o'u datblygiad.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae adborth llafar ac ysgrifenedig gan diwtoriaid a mentoriaid yn helpu athrawon dan hyfforddiant i wybod pa mor dda y maent yn gwneud, a beth mae angen iddynt ei wneud i wella o ran gwneud cynnydd yn unol â'r disgrifwyr yn y safonau SAC, a bodloni eu targedau personol. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn asesu datblygiad myfyrwyr yn deg ac yn gyfannol i nodi'r camau nesaf yn nysgu myfyrwyr. Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ar y cyd o feini prawf asesu (ar gyfer safonau'r SAC ac ar gyfer elfennau asesedig eraill o'r rhaglen) a sut maent yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy (hynny yw, bod ganddynt ddigon o dystiolaeth i lunio barnau cadarn ynglŷn â ph'un a yw'r athro dan hyfforddiant yn bodloni'r disgrifwyr perthnasol mewn ystod o gyd-destunau, a pha mor dda y mae athro dan

hyfforddiant yn gwneud hyn).  Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn cymedroli barnau am athrawon unigol dan hyfforddiant, a chyflawniad y garfan.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae staff addysgu partneriaeth yn darparu cyfleoedd pwrpasol i athrawon dan hyfforddiant adolygu ac asesu eu perfformiad eu hunain, a pherfformiad athrawon eraill dan hyfforddiant, lle bo’n briodol.  Dylent ystyried i ba raddau y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn dadansoddi deilliannau eu hasesiad o athrawon dan hyfforddiant i lywio cynllunio modiwlau rhaglen, sesiynau addysgu a phrofiad yn yr ysgol yn y dyfodol.  Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae asesiad crynodol y bartneriaeth o ddeilliannau athrawon dan hyfforddiant yn helpu athrawon dan hyfforddiant i nodi eu cryfderau a meysydd i’w datblygu yn fanwl gywir ar gyfer eu cyfnod ymsefydlu.

Dylai arolygwyr ddefnyddio ystod lawn y dystiolaeth sydd ar gael iddynt wrth farnu ansawdd yr addysgu a’r mentora.  Mae hyn yn debygol o gynnwys tystiolaeth o waith athrawon dan hyfforddiant, cynlluniau gweithredu modiwlau, cofnodion asesu, gwybodaeth am gynnydd athrawon dan hyfforddiant, trafodaethau ag athrawon dan hyfforddiant a staff, arsylwadau a theithiau dysgu o staff y bartneriaeth yn addysgu neu’n mentora yn yr ysgol ac yn y brifysgol, yn ogystal ag arsylwadau o addysgu athrawon dan hyfforddiant wedi eu cynnal gan aelodau o’r tîm arolygu.  Ni ddylai arolygwyr neilltuo barn i sesiwn unigol, athro dan hyfforddiant nac aelod o staff y bartneriaeth, ond dylent ystyried y cryfderau a’r gwendidau yn ansawdd yr addysgu ar y rhaglen dros gyfnod.

I werthuso ansawdd y mentora a ddarperir gan ysgolion y bartneriaeth, bydd yr arolygydd cofnodol yn enwebu carfan o fyfyrwyr y bydd arolygwyr yn ymweld â nhw yn yr ysgol.  Fel rhan o’r ymweliad, bydd arolygwyr:

- yn arsylwi adborth y mentor i’r myfyriwr
- yn arsylwi sesiynau mentora eraill, fel y bo’n briodol
- yn cyfarfod â’r mentor a’r unigolyn sy’n gyfrifol am y rhaglen hyfforddi gyffredinol yn yr ysgol i drafod y bartneriaeth, eu rolau a’u dealltwriaeth o feini prawf ar gyfer asesu a’r trefniadau asesu
- yn adolygu ffeiliau profiad ysgol y myfyriwr a’r mentor (ar bapur neu’n ddigidol, fel y bo’n briodol)
- yn ystyried a roddir cyfleoedd priodol i fyfyrwyr ddatblygu a gwella eu haddysgeg sy’n benodol i sector a phwnc

## Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad

### 4.1 Datblygiad personol a phroffesiynol, a darparu cymorth dysgu

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae’r bartneriaeth yn paratoi athrawon dan hyfforddiant ar y rhaglen i ddarparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl trwy fod yn ymarferwyr meddylgar, myfyriol ac arloesol, sydd wedi ymrwymo i’w twf personol a’u dysgu proffesiynol gydol oes eu hunain.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae’r rhaglen yn datblygu gwerthfawrogiad ac ymgorfforiad myfyrwyr o werthoedd craidd yr hyn mae’n ei olygu i fod yn weithiwr addysgu proffesiynol, er enghraifft y gwerthoedd sy’n angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo dysgu a chydweithio mewn timau ymhlith staff, fel ymddiriedaeth, empathi a pharch ar y ddwy ochr.  Dylent werthuso i ba raddau y mae’r rhaglen yn darparu cyfleoedd effeithiol i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu agweddau ar dueddiadau a gwerthoedd proffesiynol, fel uniondeb, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd personol.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae’r rhaglen yn hyrwyddo a chefnogi athrawon dan hyfforddiant i ymgymryd â darllen ehangach ac yn arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o theori ac ymchwil sy’n berthnasol i’w harfer o ddydd i ddydd, yn cynnwys ymwybyddiaeth o ystyriaethau moesegol yn gysylltiedig ag ymchwil mewn cyd-destunau addysgol.  Hefyd, dylent ystyried pa mor dda y mae’r rhaglen yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i werthuso ymchwil addysgol yn feirniadol a dechrau llunio barnau am yr hyn y maent yn ei ddarllen.  Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae’r rhaglen yn datblygu dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o sut i ddefnyddio data a gwybodaeth am berfformiad, a pha mor dda y maent yn defnyddio a chymhwyso canfyddiadau perthnasol o ymchwil addysgol, ac yn defnyddio’r hyn y maent wedi ei ddysgu i herio a gwella eu haddysgu.  Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae’r rhaglen yn datblygu dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o le ymchwil ar y cyd ar raddfa fach, fel ymchwil weithredu, o ran datblygu arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.  Dylent ystyried pa mor dda y mae’r rhaglen yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i gydnabod bod staff mewn ‘sefydliad dysgu’ yn ymgysylltu’n llawn â nodi’r nodau a’r blaenoriaethau ar gyfer eu dysgu proffesiynol eu hunain, yn unol â nodau’r ysgol ac anghenion dysgu disgyblion.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae’r rhaglen yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a’u datblygiad proffesiynol eu hunain, yn cynnwys datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg personol, a’u cymhwysedd digidol.  Dylid sicrhau mai agwedd bwysig ar y rhaglen yw cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i gofnodi a myfyrio ar eu profiadau proffesiynol, yn cynnwys adborth gan bobl eraill, a nodi eu camau nesaf ar gyfer datblygu.  Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae’r rhaglen yn helpu myfyrwyr i weld heriau, problemau a chamgymeriadau fel cyfleoedd ar gyfer dysgu, pa mor effeithiol y mae’r rhaglen yn annog creadigrwydd a meddwl agored, a’r graddau y mae’r rhaglen yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu hunanhyder, eu galluoedd mynegiannol a’u gallu i weithio mewn tîm.

Dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae'r rhaglen yn helpu athrawon dan hyfforddiant i gydnabod bod cydweithio yn rhan hanfodol o waith athro, trwy gynnig ystod o gyfleoedd i fyfyrwyr weithio ar y cyd â'u cyfoedion ac ymarferwyr eraill, ac arsylwi pobl eraill yn cydweithio.  Dylent ystyried pa mor dda y mae'r rhaglen yn cynorthwyo myfyrwyr i ddeall pwysigrwydd datblygu perthnasoedd gweithio gyda rhieni / gofalwyr ac asiantaethau partner er budd disgyblion.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae darpariaeth y bartneriaeth yn helpu athrawon dan hyfforddiant, yn cynnwys y rhai o wahanol grwpiau, i ymgymryd â chyfrifoldebau arwain, a chwarae rhan lawn yn y bartneriaeth a datblygiad a gwelliant parhaus y rhaglen.  Hefyd, dylent ystyried pa mor dda y mae'r rhaglen yn cefnogi dealltwriaeth ac ymrwymiad myfyrwyr i 'arwain dysgu', yn cynnwys datblygu rhinweddau personol a phroffesiynol myfyrwyr i arwain pobl eraill.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae darpariaeth y bartneriaeth yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu dealltwriaeth o'r diwylliannau, y gymuned leol a'r byd ehangach y maent yn gweithio ynddo, yn cynnwys helpu myfyrwyr i ddeall rhwystrau posibl rhag dysgu disgyblion, a'r cyfraniad y gallent ei wneud at oresgyn y rhwystrau hynny, trwy addysgu effeithiol.  Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r rhaglen yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r modd y mae cymorth bugeiliol yn helpu datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, yn cynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r rhaglen yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn datblygu gwerthoedd parch a thrin pobl eraill ag urddas.  Dylent ystyried pa mor dda y mae'r rhaglen yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o aflonyddwch, gwahaniaethu, bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth ac eithafiaeth, ac yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r materion hyn a meithrin ymagwedd gadarnhaol at reoli ymddygiad disgyblion a diwylliant gwrthfwlio.  Hefyd, dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae darpariaeth y bartneriaeth yn herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau athrawon dan hyfforddiant, pa mor dda y mae'n hyrwyddo hawliau dynol a gwybodaeth athrawon dan hyfforddiant am ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'i oblygiadau i hawliau disgyblion.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae darpariaeth y bartneriaeth yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth i wneud dewisiadau iach am eu ffordd o fyw, er enghraifft mewn perthynas â'u diet, gweithgarwch corfforol a rheoli eu baich gwaith.  Hefyd, dylent ystyried pa mor llwyddiannus y mae darpariaeth y bartneriaeth yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddeall effaith dewisiadau ac ymddygiadau ynglŷn â ffordd o fyw ar eu hiechyd meddwl a chorfforol a'u lles fel athrawon yn awr ac yn y dyfodol.

Hefyd, dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae gan y bartneriaeth drefniadau trylwyr ar gyfer ymateb i unrhyw achosion yn ymwneud â bwlio, aflonyddwch a gwahaniaethu, a'u rheoli.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn darparu cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol, ac yn y brifysgol.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae’r rhaglen yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i baratoi ar gyfer trefniadau ymsefydlu fel athro newydd gymhwyso (ANG), fel defnyddio’r Pasbort Dysgu Proffesiynol, cofrestru gyda CGA, yn ogystal â chynorthwyo athrawon newydd gymhwyso i ddeall y gofynion y mae’n rhaid iddynt eu bodloni i gwblhau eu cyfnod ymsefydlu statudol yn llwyddiannus.  Dylai hyn gynnwys gwerthusiad o ba mor dda y mae’r rhaglen yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant tuag at ddiwedd eu rhaglen AGA i fyfyrio’n feirniadol ar yr hyn y maent wedi ei gyflawni, a sut byddant yn datblygu a gwneud cynnydd.  Hefyd, dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd arweiniad, cyngor a chymorth diduedd a roddir i athrawon dan hyfforddiant, wrth iddynt wneud eu dewisiadau gyrfa a symud ymlaen yn eu datblygiad proffesiynol.

Dylai arolygwyr werthuso gallu’r bartneriaeth i nodi’n gynnar unrhyw athrawon dan hyfforddiant sy’n cael trafferth â’r rhaglen, a pha mor dda y mae’r bartneriaeth yn olrhain ac yn monitro cynnydd athrawon dan hyfforddiant tuag at fodloni’r safonau ar gyfer SAC a’u lles, yn cynnwys presenoldeb ac ymddygiadau proffesiynol, wrth iddynt symud trwy’r rhaglen.  Dylai arolygwyr werthuso pa mor effeithiol yw systemau a phrosesau’r bartneriaeth ar gyfer sicrhau addasrwydd athro dan hyfforddiant i ymarfer, er enghraifft p’un a oes gan y bartneriaeth drefniadau priodol ar gyfer rheoli ymddygiad myfyrwyr.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae’r bartneriaeth yn defnyddio’r wybodaeth hon i ystyried cynnydd a datblygiad grwpiau penodol, er enghraifft yr athrawon hynny dan hyfforddiant y gallai eu hamgylchiadau eu gwneud yn agored i dangyflawni, y rhai sy’n fwy abl neu’r rhai sydd â statws ‘cyfeirio’ neu ‘ohirio’ ar gyfer asesiadau modiwl.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae’r bartneriaeth yn nodi materion perthnasol, ac yn ymateb yn briodol i ddeilliannau olrhain a monitro, yn ogystal â gwerthuso effaith unrhyw gymorth y mae’n ei ddarparu, er enghraifft ar gyfer athrawon dan hyfforddiant nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd.  Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd strategaethau ymyrraeth, mentora neu hyfforddi unigolion neu grwpiau yn y brifysgol ac/neu yn yr ysgol, gweithdrefnau cwnsela, lle bo’n briodol, i alluogi athrawon dan hyfforddiant i adael y rhaglen.  Dylai arolygwyr ystyried p’un a oes arferion gweithio da i ddatrys materion yn gysylltiedig â chymorth myfyrwyr, yn cynnwys prydlondeb, effeithiolrwydd a chysondeb gweithdrefnau cwyno.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae’r bartneriaeth yn olrhain cynnydd athrawon dan hyfforddiant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â’r amodau yn eu cynlluniau cymorth unigol.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd y cyfathrebu rhwng sefydliadau partner i gefnogi anghenion dysgu athrawon dan hyfforddiant, a’u lles.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae’r bartneriaeth yn darparu gwybodaeth am wasanaethau prifysgol, fel gwasanaethau cyngor ar astudio, cymorth ariannol, caplaniaeth, iechyd a lles ac anabledd, i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, ac yn cyfeirio myfyrwyr tuag atynt.

## 4.2 Diogelu

Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Pan fydd trefniadau yn destun pryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys argymhelliad yn yr adroddiad a bydd Estyn yn anfon llythyr lles at y bartneriaeth yn gofyn iddynt amlinellu sut byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg(ion).

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae trefniadau diogelu'r bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn.  Dylai trefniadau gynnwys arferion recriwtio diogel ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, a chydymffurfio â'r gofynion mynediad ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru[2], nodi plant mewn angen neu mewn perygl a chael trefniadau priodol ar gyfer atgyfeiriadau amddiffyn plant.  Gallai athrawon dan hyfforddiant a disgyblion hŷn fod yn agos o ran eu hoedran.  Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddeall y gyfraith (Deddf Troseddau Rhywiol [Diwygio] 2003) yn gysylltiedig â pherthnasoedd athrawon / disgyblion.  Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelu a lles, yn cynnwys cadw'n ddiogel ar-lein.  Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gofynion a chanllawiau statudol penodol am y materion hyn, a dylai fod partneriaethau wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â nhw.

Dylai arolygwyr ystyried darpariaeth y bartneriaeth ar gyfer amddiffyn plant.  Er enghraifft, byddant yn edrych ar bu'n a yw holl ysgolion y bartneriaeth yn rhoi brîff clir a thrylwyr i athrawon dan hyfforddiant ar eu polisïau a'u gweithdrefnau amddiffyn plant ar ddechrau eu profiadau a'u diweddariadau yn yr ysgol, yn ôl yr angen. Byddant yn edrych ar ba mor effeithiol yw ei threfniadau ar gyfer atal a mynd i'r afael â bwlio, aflonyddu, yn cynnwys aflonyddu rhywiol a gwahaniaethu.  Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r bartneriaeth yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i gadw disgyblion yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, a rhag peryglon radicaleiddio.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes gan y bartneriaeth weithdrefnau trylwyr ar gyfer gwirio addasrwydd athrawon dan hyfforddiant a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â phlant, a bod y bartneriaeth yn cynnal cofnod o'r gwiriadau hyn.  Dylai arolygwyr wirio bod yr holl athrawon dan hyfforddiant a staff yn y bartneriaeth yn gwybod beth i'w wneud i ymateb i faterion amddiffyn plant, a bod y swyddog(ion) arweiniol dynodedig ar gyfer y bartneriaeth ac aelodau staff eraill, lle bo'n briodol, wedi cael hyfforddiant diogelu perthnasol.  Dylai arolygwyr wirio p'un a oes gan y bartneriaeth bolisïau, gweithdrefnau a threfniadau adrodd priodol mewn perthynas ag ymyriadau corfforol a thynnu disgyblion allan o wersi.

Wrth ystyried materion diogelu, dylai arolygwyr ystyried diogeledd yr adeiladau a'r safle pan fydd athrawon dan hyfforddiant yn gweithio gyda disgyblion.

[2] Atodiad 2:  Gofynion mynediad ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru, Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018)

# Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth

## 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

Mae'r 'Meini prawf ar gyfer achredu rhaglen addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru' yn ei gwneud yn ofynnol i raglenni AGA gael eu harwain ar y cyd gan y SAU neu'r SAUau gyda'u hysgolion partner arweiniol – 'y bartneriaeth'.  Hefyd, gallai'r bartneriaeth gynnwys sefydliadau eraill fel consortia rhanbarthol.  Dylai arolygwyr ystyried rôl y sefydliadau hyn mewn arwain y bartneriaeth AGA, ac effeithiolrwydd eu cyfraniad.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r bartneriaeth wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir gyda nodau priodol, amcanion a chynlluniau strategol, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael yr addysg broffesiynol orau posibl i'w galluogi i fodloni'r disgwyliadau trylwyr a amlinellir yn y safonau ar gyfer SAC.  Dylent ystyried y cymorth a ddarperir gan arweinyddiaeth ehangach y brifysgol, strategaeth a strwythurau yn y brifysgol, ysgolion arweiniol a sefydliadau eraill, fel y bo'n briodol.

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd strwythurau arwain a rheoli.  Dylent ystyried pa mor dda y mae'r strwythurau hyn yn galluogi SAU/au a'u hysgolion partner arweiniol i ddylunio a datblygu rhaglenni, a chymryd atebolrwydd ar y cyd am safonau a lles athrawon dan hyfforddiant.  Dylent ystyried p'un a oes cydbwysedd priodol rhwng y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer arweinwyr ar bob lefel o fewn y bartneriaeth.

Bydd arolygwyr yn barnu i ba raddau y mae gan y bartneriaeth bolisïau a gweithdrefnau cadarn a fydd yn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion y Meini Prawf ar gyfer Achredu.  Dylai'r rhain gynnwys sicrhau gofynion mynediad a gweithdrefnau dewis trylwyr ar gyfer athrawon dan hyfforddiant[3], strategaeth ar gyfer dewis a datblygu mentoriaid athrawon dan hyfforddiant, a chynnal rheolaethau mewnol i sicrhau uniondeb cofnodion athrawon dan hyfforddiant.  Hefyd, byddant yn ystyried y graddau y mae partneriaethau AGA yn recriwtio yn unol â'r targedau a osodwyd gan CGA.

Dylai arolygwyr archwilio'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer dewis ysgolion ar gyfer y bartneriaeth, a sicrhau bod y rhain yn bodloni'r Meini Prawf ar gyfer Achredu.  Dylent farnu i ba raddau y mae Memorandwm Dealltwriaeth a gytunwyd ar y cyd yn amlinellu'n glir sut yn union y bydd y bartneriaeth yn gweithio, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau priodol SAUau, ysgolion a phartneriaethau eraill, fel y bo'n briodol.  Wrth archwilio rhan ysgolion arweiniol, dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant lle caiff AGA ei derbyn fel un o'r cyfrifoldebau craidd.  Hefyd, dylent ystyried eglurder gweithdrefnau dad-ddewis, a pha mor dda y caiff y rhain eu rhannu ar draws y bartneriaeth.

[3] Rhaid i bartneriaethau sicrhau bod yr holl ymgeiswyr i raglenni AGA wedi bodloni gofynion Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004, yn cadarnhau eu hiechyd a'u gallu corfforol i ymgymryd â chyfrifoldebau athro.  Hefyd, rhaid iddynt roi ystyriaeth briodol i'w rhwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGSA).

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel o'r bartneriaeth yn gosod disgwyliadau uchel iddyn nhw eu hunain, y rhaglenni, staff (SAU/au a'r ysgol) ac athrawon dan hyfforddiant (e.e. trwy recriwtio ymgeiswyr o'r radd flaenaf, a denu addysgwyr athrawon o ansawdd uchel yn y SAU ac yn yr ysgol). Dylent werthuso p'un a oes gan y bartneriaeth drefniadau gweinyddol effeithiol i sicrhau ei bod yn darparu'r lefel briodol o weithgarwch hyfforddi dan arweiniad y brifysgol / yr ysgol ym mhob blwyddyn academaidd, a'r gofynion penodol o ran profiad ysgol[4].

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r bartneriaeth a chydweithio effeithiol rhwng staff a sefydliadau eraill (e.e. darparwyr AGA eraill yng Nghymru a thu hwnt, SAUau eraill, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol).  Dylent werthuso pa mor dda y mae staff ar draws y bartneriaeth ar bob lefel yn deall a chyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau (h.y. penaethiaid, uwch fentoriaid a mentoriaid, ac arweinwyr a staff mewn prifysgolion a sefydliadau partner eraill), a pha mor dda y maent yn cydweithio i ysgogi blaenoriaethau strategol a gwelliant partneriaeth.  Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae cyfathrebu rhwng y SAU(au) ac ysgolion partneriaeth arweiniol yn cefnogi arferion gweithio effeithiol ac yn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

Wrth werthuso ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, dylai arolygwyr ystyried ystod eang o dystiolaeth, fel cofnodion o ystod o gyfarfodydd diweddar, cyfweliadau â staff y bartneriaeth, cynlluniau gweithredu gwelliant ac adroddiadau ar eu gweithredu, adroddiadau hunanwerthuso gan arweinwyr a rheolwyr, a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad athrawon dan hyfforddiant.  Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn y bartneriaeth yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, a pha mor dda y maent yn gwneud penderfyniadau ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr, brys ac anghenion tymor hir y gweithlu addysgu a chymunedau yng Nghymru.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae arweinwyr wedi sefydlu rhesymeg glir a strategol ar gyfer y rhaglen AGA o ran y manteision i athrawon dan hyfforddiant a'r gweithlu addysg, ac ar gyfer disgyblion wrth eu paratoi i ddysgu trwy gydol eu bywydau, a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas.  Dylent archwilio'r graddau y mae arweinwyr a rheolwyr y bartneriaeth yn bwrpasol a llwyddiannus o ran bodloni blaenoriaethau cenedlaethol mewn addysg gychwynnol athrawon, fel:

- denu ymgeiswyr o'r radd flaenaf i'r proffesiwn addysgu
- paratoi athrawon newydd i ddeall natur newidiol cymdeithas yn yr 21ain ganrif, ac anghenion pobl ifanc mewn addysg
- eu haddysgu ynglŷn â sut i ddysgu a meithrin eu hymrwymiad i ddysgu proffesiynol gydol oes
- datblygu diwylliant o ymholi ac arfer wedi ei llywio gan ymchwil mewn prifysgolion ac ysgolion

[4] h.y. Rhaid darparu o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddi dan arweiniad SAU / ysgol ym mhob blwyddyn academaidd ar gyfer athrawon dan hyfforddiant.  Dyma ofynion profiad ysgol:  32 wythnos ar gyfer yr holl raglenni israddedig cynradd pedair blynedd; 24 wythnos ar gyfer yr holl raglenni israddedig dwy flynedd a thair blynedd; a 24 wythnos ar gyfer yr holl raglenni ôl-raddedig cynradd ac uwchradd.

- arwain newid mewn cwricwlwm ysgol, asesu ac addysgeg
- gwella datblygiad medrau disgyblion mewn Cymraeg / Saesneg, rhifedd a chymhwysedd digidol
- lleihau effaith anfantais ar gyrhaeddiad addysgol
- sicrhau bod rhaglenni'n meithrin gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o'r Gymraeg ac yn datblygu eu hyfedredd i addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr y bartneriaeth yn cynllunio'n strategol i ddiwallu anghenion athrawon dan hyfforddiant sy'n dymuno gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a datblygu eu harbenigedd i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd strwythurau llywodraethu'r bartneriaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r rhai sy'n cael eu cynnwys mewn llywodraethu yn gwybod beth yw cryfderau'r bartneriaeth a'r meysydd i'w datblygu, a'r graddau y maent wedi cymryd rhan mewn gosod blaenoriaethau strategol y bartneriaeth. Dylent ystyried p'un a oes cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her yn y ffordd y mae llywodraethwyr a/neu gyrff goruchwylio yn cyflawni eu rôl mewn dwyn arweinwyr y bartneriaeth i gyfrif am y safonau a'r ansawdd a gyflawnir gan y bartneriaeth.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae llywodraethwyr a/neu gyrff goruchwylio yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol, yn cynnwys y meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.

Dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae yna fodel cadarn ar gyfer cynnal y bartneriaeth.  Dylent ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio'i hadnoddau yn effeithlon ac yn gymesur (e.e. sut mae'n dosbarthu'r cyllid rhwng y SAU(au) ac ysgolion er mwyn cyflawni ei nodau; defnyddio staff rhan-amser / staff sy'n cael eu talu fesul awr mewn prifysgolion; ad-drefnu neu drefniadau cydweithredol eraill).

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes gan y bartneriaeth drefniadau priodol ar gyfer argyfyngau.  Dylent werthuso i ba raddau y mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw gyllid grant / incwm (e.e. ar gyfer ymchwil, o gynnal digwyddiadau hyfforddi ar gyfer sefydliadau eraill).

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes lefel briodol o staffio (h.y. un aelod o staff addysgu cyfwerth ag amser llawn ar gyfer pob 15 athro dan hyfforddiant, o leiaf). Dylent ystyried cymwysterau a phrofiad staff y bartneriaeth, a sut y cânt eu defnyddio, i ddarparu addysg gychwynnol athrawon o ansawdd uchel, a'r graddau y mae'r bartneriaeth yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd a phrofiad ymarferwyr yn y brifysgol ac yn yr ysgol.

## 5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Dylai'r SAU/au ac ysgolion partneriaeth arweiniol gymryd rhan lawn yn y modd y mae'r bartneriaeth yn sicrhau ansawdd rhaglenni, ac yn gwerthuso deilliannau athrawon dan hyfforddiant, ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth i gyfrannu at welliant parhaus.

Dylai arolygwyr farnu pa mor gywir y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwybod beth yw cryfderau a gwendidau pob rhaglen, ac am y bartneriaeth yn gyffredinol.  Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau a chynnydd, ac ansawdd y ddarpariaeth, yn cynnwys addysgu a mentora.  Dylent werthuso pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad (mewnol ac allanol, fel ei gilydd) a dadansoddi olrhain perfformiad myfyrwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, a gwella darpariaeth a deilliannau.  Dylent ystyried pa mor strategol y mae arweinwyr yn defnyddio eu canfyddiadau ar y cyd â gwybodaeth arall i ddyfeisio blaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer gwella.

Dylai arolygwyr ystyried effaith prosesau cynllunio gwelliant, a pha mor dda y mae blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella yn cysylltu â chanfyddiadau hunanwerthuso.  Ffocws gwaith arolygwyr yw effeithiolrwydd ac effaith prosesau'r bartneriaeth, yn hytrach nag ansawdd y dogfennau.  Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn cefnogi blaenoriaethau trwy ddyrannu adnoddau yn briodol.  Dylent werthuso i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella.  Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn dyfeisio graddfeydd amser penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb priodol ar gyfer sicrhau gwelliant i aelodau staff.  Dylent ystyried pa mor effeithiol y mae'r bartneriaeth yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd yn erbyn ei blaenoriaethau, ac yn addasu ei dulliau pan fydd angen.  Dylent ystyried y graddau y mae penderfyniadau'r bartneriaeth am wariant a chynllunio ariannol eang yn cysylltu'n briodol â'i blaenoriaethau strategol a'i chynllunio gwelliant.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cynnwys ystod briodol o bartneriaid, yn cynnwys athrawon dan hyfforddiant, disgyblion a rhanddeiliaid eraill (fel y consortia rhanbarthol ac arholwyr allanol), i nodi cryfderau a gwendidau'r rhaglen, cefnogi a datblygu'r rhaglen, a gwella deilliannau athrawon dan hyfforddiant.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae egwyddorion clir ar waith sy'n ategu strategaethau sicrhau ansawdd, er enghraifft wrth ddewis a datblygu mentoriaid.  Dylent farnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn sicrhau ansawdd a chysondeb mentora a thiwtora, a bod y bartneriaeth yn barnu cynnydd myfyrwyr yn gywir, a dim ond yn dyfarnu SAC i'r myfyrwyr hynny sy'n bodloni'r safonau gofynnol.

Dylai arolygwyr ystyried ansawdd cynllunio gwelliant, a pha mor dda y mae blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella yn cysylltu â deilliannau gweithdrefnau hunanwerthuso'r bartneriaeth.  Dylent ystyried y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella, a pha mor dda y mae cynlluniau gwella yn cynnwys graddfeydd amser penodol, realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb priodol am eu cyflwyno i aelodau staff yn y bartneriaeth.

Dylai arolygwyr edrych ar y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynnal agweddau o ansawdd uchel, neu'n gwella agweddau gwan ar y ddarpariaeth, er enghraifft o ran mynd i'r afael â materion yn ansawdd y mentora neu'r tiwtora.  Dylent werthuso pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf, a pha mor gyflym maen nhw'n ysgogi unrhyw gamau adferol (e.e. materion recriwtio a chadw; dim digon o ysgolion neu leoedd ar gyfer profiadau yn yr ysgol athrawon dan hyfforddiant).

Dylai arolygwyr ymchwilio i hanes y bartneriaeth o ran gwneud gwelliannau i'w rhaglen(ni) a'r graddau y mae'r gwelliannau hyn wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles athrawon dan hyfforddiant, er enghraifft trwy welliannau i ansawdd yr addysgu ar y rhaglen.  Lle bo'n briodol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi ymateb i argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn, gan bartneriaid strategol, arholwyr allanol neu amodau ac argymhellion o Gyngor y Gweithlu Addysg yn ymwneud â'r broses achredu, a ph'un a yw camau gweithredu'r bartneriaeth wedi arwain at welliannau.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff yn y bartneriaeth ac yn cydweithio â phartneriaethau eraill (e.e. darparwyr AGA eraill, consortia rhanbarthol) o fewn y sector i gyflawni gwelliannau yn y system addysg yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.  Dylent ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio partneriaethau strategol ac yn cydweithio ag asiantaethau eraill i helpu meithrin ei chapasiti ar gyfer gwelliant parhaus, er enghraifft trwy ymchwil.

## 5.3 Dysgu proffesiynol

Mae'r partneriaethau AGA yn darparu elfen hanfodol o ddysgu proffesiynol ar draws y system.  Byddant yn allweddol wrth greu cymuned ddysgu fywiog ar draws ysgolion a SAUau.  Bydd y partneriaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymchwil, gwybodaeth a medrau ar draws y sector, gyda SAUau ac ysgolion yn gwneud y gorau o'u cyfraniadau unigryw at hyn.  Dylid cefnogi rhaglenni AGA trwy ymrwymo'n barhaus i ymchwil i addysgeg fwyaf effeithiol AGA.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr wedi creu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff yn y bartneriaeth, ac archwilio a thrafod arferion addysgegol ac asesu yn sgil tystiolaeth o ymchwil ac o arfer yn rhywle arall.  Dylent ystyried y graddau y mae pob ysgol yn y bartneriaeth wedi ymrwymo i fod yn sefydliad dysgu.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn nodi anghenion datblygu staff.  Dylent ystyried y trefniadau i gefnogi ymgysylltiad gweithredol pob un o'r staff mewn cynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol, yn cynnwys pa mor dda y mae'r SAU yn hwyluso dysgu proffesiynol staff ysgol i sicrhau eu bod yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol, er enghraifft:

- medrau mentora, tiwtora ac addysgu
- deall yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn addysgwr athrawon
- gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltu â theori, ymchwil ac arfer yn rhywle arall
- cymhwysedd yn y Gymraeg
- arbenigedd mewn dylunio cyrsiau a meysydd astudio
- arwain ar ddiwygio'r cwricwlwm ysgol

Dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd y cyfleoedd i staff yn y brifysgol gynnal gwybodaeth gyfoes am addysg mewn ysgolion yng Nghymru, a phrofiad ohono.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad.  Dylent werthuso effaith

arweinwyr yn yr ysgol ac yn y brifysgol yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff er mwyn helpu staff i wella eu harfer.  Dylai arolygwyr farnu p'un a yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol, pan fydd angen.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae staff wedi myfyrio ar eu dysgu proffesiynol eu hunain ac wedi rhannu deilliannau dysgu proffesiynol gydag aelodau staff eraill, er enghraifft o fewn ysgolion unigol, o fewn rhwydweithiau neu glystyrau o ysgolion, o fewn y SAU(au), a rhwng staff ysgolion a'r brifysgol.  Dylai arolygwyr ymchwilio i ba mor dda y mae arweinwyr wedi nodi arfer effeithiol o fewn y bartneriaeth ac wedi sicrhau y gallai aelodau staff eraill elwa arni.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae staff yn gweithio gyda phartneriaethau eraill, a darparwyr eraill AGA yng Nghymru a thu hwnt, i rannu a datblygu eu harfer broffesiynol.  Dylent werthuso pa mor dda y mae arweinwyr yn cynorthwyo staff addysgu prifysgol i fod yn weithredol o ran ymchwil, a dangos sut mae eu hymchwil yn llywio datblygu ac adolygu eu rhaglenni AGA.  Dylent ystyried effaith dysgu proffesiynol ar arferion staff a dysgu athrawon dan hyfforddiant.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn gwerthuso effaith ei strategaeth dysgu proffesiynol, er enghraifft effeithiolrwydd ei rhaglenni hyfforddi mentoriaid, neu ddatblygu ymchwil, ac yn defnyddio hyn i gynllunio ar gyfer gwella.